

Cofnod datgelu: Cyngor Sir Caerfyrddin – cynlluniau Grant yr UE

Yn dilyn fy neges e-bost ddyddiedig 29 Medi 2016, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 28 Medi 2016, sef:

Mae fy nghais yn cyfeirio at y darn canlynol o adroddiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cyngor Sir Caerfyrddin ar 30 Medi 2016 sy'n cyfeirio at ddau gynllun grant wedi'u hariannu gan yr UE sydd bellach wedi dod i ben;

"Roedd disgwyl i'r archwiliadau terfynol o'r Gronfa Datblygu Eiddo a chynlluniau Adfywio Ffisegol Sir Gaerfyrddin gael eu cynnal yn 2014-15. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd yr archwiliadau terfynol hyn gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) am fod archwiliadau blaenorol o'r prosiectau hyn wedi codi nifer o faterion pwysig ac am nad oedd y Cyngor wedi derbyn eu canfyddiadau na chytuno arnynt. Cynhaliodd WEFO asesiad annibynnol o'r prosiectau hyn er mwyn deall y sefyllfa a dod i gasgliad ynghylch unrhyw gamau roedd angen eu cymryd."

Rwy'n gofyn am yr holl adroddiadau archwilio ac adroddiadau cyfrifwyr sydd gan Swyddfa Archwilio Cymru, yr holl lythrau a negeseuon e-bost rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Swyddfa Archwilio Cymru ac unrhyw ddogfennau neu adroddiadau eraill sydd gennych sy'n cyfeirio at y ddau gynllun hyn y cyfeiriwyd atynt yn y paragraff uchod, sef Cronfa Datblygu Eiddo De-orllewin Cymru a chynlluniau Adfywio Ffisegol Sir Gaerfyrddin, ac sy'n ymwneud â'r cynlluniau hyn.

Mae gennym wybodaeth sy'n cyfateb i ddisgrifiad eich cais, ond nid wyf am ei rhyddhau am y rhesymau canlynol:

- Byddai datgelu'r wybodaeth yn niweidiol i swyddogaethau archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru. Byddai datgelu gwybodaeth o'r fath yn annog diffyg cydweithrediad ag archwilwyr a byddai'n niweidio ein cydberthynas waith â WEFO a'r Cyngor. Felly, mae'r wybodaeth yn dod o dan yr eithriad a ddarperir gan adran 33 (swyddogaethau archwilio) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cyhoeddi mwy o wybodaeth am archwilwyr sector cyhoeddus o fudd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â chynnal prosesau archwilio cyhoeddus effeithlon ac effeithiol, ac osgoi'r niwed a achosid i'r prosesau hynny yn sgil datgelu'r wybodaeth, yn fwy na'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'i datgelu. Felly, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon er budd y cyhoedd, rwyf wedi penderfynu y dylid cadw'r eithriad a ddarperir gan adran 33.
- Cafwyd y wybodaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac, fel y cyfryw, oherwydd byddai ei datgelu yn niweidiol i swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, daw o dan y cyfyngiad ar ddatgelu a ddarperir gan adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Felly, daw o dan yr eithriad o dan adran 44 (gwaharddiadau ar ddatgelu) a nodir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithriad absoliwt.

Fel y gwyddoch rydym yn archwilio'r hawliadau Ewropeaidd ar ran WEFO. Fel rhan o'r archwiliadau, ni allem gytuno ar yr adroddiadau terfynol gyda'r Cyngor ac, felly, er mwyn arbed unrhyw gostau pellach ac amser cytunodd pob parti y byddai WEFO yn cwblhau'r ddau archwiliad. Nodwyd ei

chanfyddiadau yn y cyfarfod o Bwyllgor Archwilio Cyngor Sir Caerfyrddin a gynhaliwyd yn ddiweddar ar 30 Medi 2016.

Os bydd gennych unrhyw gŵyn am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost ataf neu ysgrifennwch ataf.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan yr adran honno cewch ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth benderfynu a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf. Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost : casework@ico.org.uk
Ffôn: 0303 123 1113
Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi ddilyn pob cam o dan ein gweithdrefnau cwyno mewnlol ni cyn gwneud cais o'r fath. Ceir rhagor o ganllawiau ar [wefan y Comisiynydd Gwybodaeth](#).

Mae croeso i chi gysylltu â mi hefyd os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir,

Ian Phillips